Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Parc Waundew
**Stryd y Prior**
**Caerfyrddin**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA31 1NB**
**United Kingdom**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 03/12/2013**

## Cyd-destun

Ysgol gymunedol yn nhref Caerfyrddin yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin yw Ysgol Gynradd Parc Waundew. Mae 180 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion i'r feithrinfa ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Mae pob disgybl yn dechrau addysg amser llawn ar ddechrau'r tymor pan fydd yn troi yn bedair oed.

Daw disgyblion o'r dref a phentrefi cyfagos. Mae rhyw 32% o'r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol. Mae'r ysgol yn cynnwys uned asesu ac arsylwi ar gyfer 12 o ddisgyblion o dair i saith oed. Daw'r disgyblion hyn o ardal ddaearyddol fawr o fewn y sir. Mynychant yr uned am nifer o dymhorau fel y gall y staff asesu'u hanghenion, cyn symud ymlaen at ddarpariaeth addas arall.

Nododd yr ysgol fod anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 50% o'i disgyblion, yn cynnwys wyth disgybl mewn dosbarthiadau prif ffrwd sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigur hwn gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol. Mae wyth o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Saesneg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd, ac mae'r disgyblion yn dysgu Cymraeg fel ail iaith. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg fel y brif iaith, ond mae ychydig ohonynt yn siarad Cymraeg gartref. Daw 15% o ddisgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Daw 11% o ddisgyblion o gartrefi lle na siaredir Saesneg na Chymraeg fel y brif iaith.

Yn Nhachwedd 2007 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf. Mae niferoedd y disgyblion wedi gostwng ychydig ers yr arolygiad diwethaf, ond maent wedi dechrau cynyddu eto erbyn hyn. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Mai 2011.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Parc Waundew yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,315 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin yw £8,152 a'r lleiafswm yw £2,941. Mae Ysgol Gynradd Parc Waundew yn y 23ain safle o'r 106 o ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt ei chylldieb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud drwy'r ysgol mewn perthynas â'u gallu a'u mannau cychwyn;
- mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn falch o'u cyflawniadau;
- mae disgyblion yn teimlo bod ganddynt lais o ran y ffordd y caiff yr ysgol ei rhedeg;
- mae'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol yn ysgogol ac yn ddiddorol; ac
- mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn cymell y disgyblion yn dda.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae darlun cywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol gan yr uwch dîm arweinyddiaeth a'r llywodraethwyr;
- mae cynlluniau gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n fanwl ar godi lefelau cyflawniad disgyblion;
- mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion a'r staff, ac mae hyn wedi arwain at welliannau sylweddol mewn safonau dros y ddwy flynedd diwethaf;
- mae athrawon a staff cymorth yn cyfrannu'n dda at welliant parhaus yr ysgol; ac
- mae partneriaethau â rhieni a'r gymuned leol yn gryf.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau mewn darllen, a rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Datblygu medrau a chyfrifoldebau arweinyddiaeth ystod ehangach o staff.

A3 Sicrhau bod cyfarfodydd staff ac arweinwyr yn canolbwyntio’n fanwl ar faterion strategol ac yn arwain at bwyntiau gweithredu clir y gall arweinwyr eu monitro

A4 Cynnwys pob un o’r athrawon yn y broses safoni a chymedroli gwaith y disgyblion

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda mewn perthynas â'u gallu. Maent yn datblygu gwybodaeth newydd yn awchus, ac yn aml yn cymhwyso'u dealltwriaeth yn dda mewn gwersi a thu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn siarad yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn siarad yn frwdfrydig ynglŷn â'u gwaith. Yn aml, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio ystod eang o eirfa sy'n benodol i bwnc yn gywir i drafod syniadau cymhleth. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn trafod rhagfarn yn y cyfryngau gyda dealltwriaeth. Mae medrau darllen ac ysgrifennu yn dda yn gyffredinol, ac yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud gwaith ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae mwyafrif y disgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen ar y lefel a ddisgwylir ar gyfer eu hoed neu'n uwch na'r lefel honno. Mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod briodol o strategaethau, yn cynnwys gwybodaeth ffonig a chliwiau cyd-destun, i ddatgodio geiriau anghyfarwydd. Ceir diffyg brwdfrydedd am ddarllen ymhlith ychydig o ddisgyblion oherwydd yr amrywiaeth gyfyngedig o destunau sydd ar gael iddynt yn y dosbarth. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda at ystod briodol o ddibenion ar lefel sy'n briodol i'w gallu. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn ysgrifennu adroddiadau gwyddonol yn gryno. Cynhwysant ddelweddau lliwgar wrth ysgrifennu barddoniaeth, a defnyddiant nodweddion fel mwyseiriau i greu penawdau papur newydd difyr.

Mae medrau rhifedd disgyblion yn datblygu'n systematig mewn gwersi mathemateg. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 gyfrif yn hyderus hyd at 100, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o odrifau ac eilrifau, ac maent yn archwilio problemau rhifiadol syml yn fwyfwy hyderus. Mae disgyblion hŷn yn adeiladu'n llwyddiannus ar y cychwyn cadarn hwn. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn deall gwerth lle yn dda. Cyfrifant yn gywir, ac maent yn trosi'n fedrus rhwng y cloc 12 awr a'r cloc 24 awr. Er gwaetha'r safonau cyffredinol dda hyn mewn mathemateg, nid yw disgyblion bob amser yn defnyddio'u medrau rhifedd ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm.

Mae agweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg gan ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd da, ac maent yn darllen ac yn ysgrifennu brawddegau syml yn gywir erbyn Blwyddyn 2. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfleu gwybodaeth bersonol a ffeithiol yn dda, er mai dim ond ychydig ohonynt sy'n ddigon hyderus i gychwyn sgwrs. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn darllen llyfrau syml, a chylchgronau gyda dealltwriaeth, ac ysgrifennant amrywiaeth o batrymau brawddegau yn gywir, gan ddefnyddio geirfa addas.

Mae perfformiad yr ysgol dros y tair blynedd diwethaf wedi gwella'n sylweddol ac mae deiliannau'r disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gerllaw cyfartaledd y teulu, y cyfartaledd lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae cyfran y disgyblion 11 oed sy'n

cyflawni'r lefelau disgwyliedig o ran y dangosydd pwnc craidd wedi codi o ychydig o dan 30% yn 2010 i dros 83% yn 2013. Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 2 wedi gosod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion â lefelau tebyg o blant â hawl i gael prydau ysgol am ddim dros y ddwy flynedd diwethaf. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r ysgol wedi bod yn y 25% uchaf. Mae llai o ddisgyblion yn cyrraedd y lefelau uwch yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 nag mewn ysgolion tebyg eraill. Mae disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a'r rhain sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn cyflawni'n dda iawn yn aml. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn gwneud gystal â disgyblion eraill.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn foesgar ac yn hyderus gydag ymwelwyr. Mae eu hymddygiad yn gyson dda mewn dosbarthiadau ac amser egwyl, a dangosant barch, gofal a phryder dros rai eraill. Mae llawer ohonynt yn gweithio'n dda yn annibynnol ac ar y cyd ag eraill, gan ddatblygu dealltwriaeth dda yn aml o'u cryfderau a'u meysydd i'w gwella. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn deall pwysigrwydd presenoldeb da a buddion bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff.

Mae presenoldeb yr ysgol wedi'i gosod yn y 50% uwch o ysgolion â lefelau tebyg o blant yn cael prydau ysgol am ddim dros y pedair blynedd diwethaf. Mae llawer o ddisgyblion, dan arweiniad y cyngor ysgol a grwpiau disgyblion eraill, yn cyfrannu'n sylweddol at fywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach. Teimlant fod eu barnau'n cael eu gwerthfawrogi ac maent yn falch o'u cyflawniadau. Gweithiant yn galed i wella'r gymuned leol trwy ddewis elusennau a phrosiectau i'w cefnogi. Er enghraifft, mae gweithio gyda thrigolion lleol i wella ardal o goetir gwastraff wedi cynyddu'u hymwybyddiaeth o'u rôl yn y gymuned yn sylweddol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Ceir cynllun gweithredu priodol ar gyfer gweithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd. Un cryfder arbennig yw'r rhaglen allgyrsiol amrywiol sy'n cymell disgyblion yn dda ac yn llwyddo o ran cefnogi datblygiad medrau'r disgyblion. Mae'r clwb gemau pen bwrdd yn cryfhau medrau rhifedd y disgyblion, ac mae'r clwb ffilmiau a'r clwb Ffrangeg yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion wella'u medrau siarad, gwrando, a'u medrau cyfathrebu ysgrifenedig. Mae ystod eang o ymwelwyr â'r ysgol, a digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymweld â mannau yn eu hardal leol sy'n berthnasol i'w hastudiaethau, yn gwella profiadau dysgu'r disgyblion yn sylweddol.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno nifer o gynlluniau gwaith wedi'u cynhyrchu'n fasnachol ac mae'r rhain yn sicrhau bod disgyblion yn adeiladu'n dda ar eu gwybodaeth flaenorol a'u medrau wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Cynigir ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd, yn enwedig i greu darnau ysgrifenedig estynedig, ac mae hyn wedi helpu codi safonau mewn ysgrifennu. Mae defnyddio'r

dirprwy bennaeth i addysgu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i bob dosbarth ac i gefnogi datblygiad proffesiynol y staff yn golygu bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau da mewn TGCh. Mae cyfleoedd ysgogol yn galluogi'r disgyblion i baratoi straeon newyddion ar gyfer rhaglenni radio a sianel deledu'r ysgol ei hun. Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn fwy cyfyngedig, er bod arfer dda mewn ychydig o ddosbarthiadau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn dda. Trwy gynllunio trylwyr, cynigir profiadau diddorol i ddisgyblion sy'n datblygu eu dealltwriaeth o dreftadaeth a diwylliant Cymru yn dda. Mae cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am gynaliadwyedd yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o ailgylchu, arbed ynni a gofalu am y blaned. Mae cysylltiadau cadarn ag ysgol yn Lesotho yn helpu disgyblion hŷn i ddatblygu'u dealltwriaeth o fywydau pobl eraill.

**Addysgu: Da**

Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae'r addysgu yn cymell disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu ac adnoddau diddorol yn aml i gyflwyno testunau ysgogol. Mae gwybodaeth dda gan yr athrawon am y pynciau y maent yn eu haddysgu, ac mae disgwyliadau uchel gan y rhan fwyaf ohonynt o ddisgyblion. Cynlluniant yn ofalus i ddarparu ystod eang o weithgareddau dysgu sy'n herio disgyblion o bob gallu yn briodol. Mae'r rheini sydd yn yr uned arsylwi ac asesu yn arbennig o fedrus yn creu profiadau dysgu sy'n annog y cyfranogiad mwyaf posibl gan ddisgyblion, tra'n cydnabod anghenion unigolion. Yn yr ychydig ddosbarthiadau lle nad yw hyn yn wir bob tro, mae'r athrawon yn dilyn cynlluniau cyhoeddedig yn rhy gaeth ac nid yw eu dull yn ddigon hyblyg. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae staff cymorth yn gweithio'n agos ag unigolion a grwpiau o ddisgyblion i'w galluogi i gyfranogi'n llawn mewn dysgu. Mae'r staff yn creu awyrgylch cadarnhaol lle bydd disgyblion yn ymdrechu'n galed ac nid ydynt yn ofni gwneud camgymeriadau.

Mae llawer o athrawon yn darparu adborth llafar effeithiol i ddisgyblion ar eu gwaith. Defnyddiant ddull marcio defnyddiol i annog disgyblion i feddwl am ba mor dda maent yn gwneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith eu hunain. Mae'r athrawon hyn hefyd yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion helpu'i gilydd i wella'u gwaith. Mae system strwythuredig ar waith gan yr ysgol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion, ac mae pob un o'r athrawon yn deall y system ac yn cyfrannu ati'n rheolaidd. Mae uwch arweinwyr yn dadansoddi ystod eang o wybodaeth am berfformiad disgyblion, ac yn sicrhau bod athrawon yn gwybod pa mor dda mae disgyblion yn datblygu. Defnyddiant ganlyniadau dadansoddi data yn dda i nodi grwpiau disgyblion penodol ar gyfer ymyriadau perthnasol, ac i godi cyrhaeddiad disgyblion wedi'u targedu. Mae'r arferion hyn yn helpu athrawon i asesu cyflawniadau disgyblion yn gywir yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, nid yw prosesau safoni a chymedroli ar draws yr ysgol yn ddigon cadarn bob amser. Mae adroddiadau i rieni yn llawn gwybodaeth ac yn rhoi cyfleoedd priodol i rieni a disgyblion gyfrannu at osod targedau.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn effeithiol, ac mae polisïau priodol yn eu lle i gefnogi'r ddarpariaeth hon. Cynigir llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd ac mae trefniadau priodol gan yr ysgol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn cynnig profiadau gwerthfawr sy'n hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Mae dull cydlynus o feithrin lles yn golygu bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn ddysgwyr hapus a hyderus, gydag agweddau cadarnhaol at yr ysgol.

Mae llawer o weithwyr proffesiynol medrus, yn cynnwys y seicolegydd addysgol a'r therapydd iaith a lleferydd, yn gweithio'n dda â'r staff i ddarparu cymorth ac arweiniad priodol i ddisgyblion dynodedig a'u teuluoedd. Mae rhaglen fanwl ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion yn lleihau'r perygl o niwed i ddisgyblion drwy eu galluogi i ofalu amdanynt eu hunain. Mae cymorth wedi'i dargedu ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed, yn cael ei ddarparu trwy grwpiau anogaeth yn aml, wedi arwain at welliannau sylweddol yn eu hymddygiad a'u perthnasoedd ag eraill. Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn nodi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gynnar ac yn trefnu rhaglenni ymyrraeth priodol sy'n diwallu anghenion disgyblion yn dda. Yn gyffredinol, mae cynlluniau addysg unigol yn briodol, er nad yw targedau yn ddigon penodol weithiau i alluogi athrawon i fesur cynnydd yn gywir. Mae sesiynau misol galw heibio gyda'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn galluogi rhieni a gofalwyr i gefnogi cynnydd eu plant yn effeithiol gartref. Mae'r cymorth arbenigol a ddarperir i ddisgyblion sydd ag amrywiaeth eang o anghenion ychwanegol yn yr uned arsylwi ac asesu yn dda. Yn sgil eu hamser cymharol fyr yn yr uned, gall y disgyblion hyn wneud cynnydd priodol mewn perthynas â'u mannau cychwyn, ac mae hynny'n eu paratoi yn dda i symud i leoliadau addas eraill.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n gwerthfawrogi ac yn dathlu cefndir amrywiol ei disgyblion yn dda, drwy'r cwricwlwm ac mewn arddangosfeydd. Mae'r awyrgylch cadarnhaol hwn yn helpu disgyblion i ddatblygu agweddau goddefgar ac mae pawb yn teimlo bod croeso iddynt yn yr ysgol. Mae'r disgyblion yn yr uned asesu ac arsylwi, a'r rheini ag anghenion penodol mewn dosbarthiadau prif ffrwd, yn integreiddio'n dda ac mae'r ysgol yn sicrhau y gall pawb gael mynediad at bob maes darpariaeth.

Mae'r adeiladau yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol, dan do ac yn yr awyr agored. Mae arddangosfeydd deniadol ar draws yr ysgol yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i ddisgyblion. Maent yn cefnogi'r dysgu yn dda ac yn dathlu'r amrywiaeth eang o waith a gweithgareddau y mae disgyblion yn eu mwynhau. Mae'r adnoddau ar gyfer bron holl feysydd y cwricwlwm yn cefnogi dysgu'r disgyblion yn dda, yn enwedig mewn TGCh.

| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth cymharol newydd yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer dyfodol yr ysgol. Maent wedi sicrhau cymorth ac ymrwymiad y staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion i gyfeiriad yr ysgol yn y dyfodol. Mae gan uwch arweinwyr rolau a chyfrifoldebau pendant. Mae'r arweinwyr yn cyfleu disgwyliadau uchel i staff trwy gyfarfodydd rheolaidd i staff a'r tîm arweinyddiaeth, ac mae hyn wedi helpu datblygu diwylliant o welliant parhaus yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw nodiadau o gyfarfodydd yn arwain bob amser at bwyntiau gweithredu clir y gall arweinwyr eu monitro'n effeithiol. Dim ond megis dechrau datblygu medrau a chyfrifoldebau arweinyddiaeth ystod ehangach o staff y mae'r ysgol.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r arweinwyr wedi canolbwyntio'n arbennig o dda ar ddatblygu systemau cadarn i ddadansoddi gwybodaeth i fonitro perfformiad disgyblion ac i wella safonau mewn meysydd allweddol. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth gynyddol athrawon o berfformiad disgyblion, gan gynnwys defnyddio'r asesiad 'ffit orau', wedi arwain at welliannau sylweddol mewn deilliannau disgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gwybod am gryfderau a gwendidau'r ysgol ac yn eu deall yn dda. O ganlyniad, mae llywodraethwyr yn herio arweinwyr yn gadarn mewn perthynas â safonau, ac maent yn cefnogi'r ysgol yn dda er mwyn ysgogi gwelliannau. Mae llywodraethwyr a staff yn deall blaenoriaethau cenedlaethol a lleol allweddol ac yn rhoi ystyriaeth dda iddynt. Rhoddir ffocws cadarn ar wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ac ar wella perfformiad disgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae uwch arweinwyr wedi datblygu strategaeth sicr ar gyfer hunanarfarnu sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, yn cynnwys data perfformiad disgyblion, arsylwadau dosbarth a barnau disgyblion a rhieni. Mae'r athrawon, staff cymorth a llywodraethwyr yn deall diben a phwysigrwydd hunanarfarnu, ac mae eu rôl yn y broses yn datblygu'n dda. Mae canlyniadau'r prosesau hyn yn helpu rhoi asesiad cywir o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu, ac o ganlyniad, mae'r arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Nid oes digon o athrawon, fodd bynnag, yn gwybod digon am ansawdd gwaith yn llyfrau disgyblion mewn dosbarthiadau eraill. Mae hyn yn golygu nad oes dealltwriaeth drylwyr o safoni a chymedroli ar bob lefel gan bob un o'r athrawon.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir drwy hunanarfarnu i bennu blaenoriaethau a thargedau allweddol ar gyfer gwella'r ysgol. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn gryno ac yn nodi targedau perthnasol a phenodol, gyda meini prawf llwyddo sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n amlinellu'n glir gyfrifoldebau staff, y gofynion ariannu a'r gofynion o ran adnoddau a dulliau ar gyfer monitro cynnydd. Mae gwelliannau a wnaed dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi cael effaith gadarnhaol ar wella safonau, er enghraifft, mewn ysgrifennu estynedig, TGCh, mathemateg a Chymraeg.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn gweithio’n bwrpasol gydag ystod eang o bartneriaid, yn cynnwys llawer o sefydliadau cymunedol lleol, fel yr eglwys, y gymdeithas tenantiaid lleol a’r gymdeithas trigolion lleol. Mae llawer o’r cysylltiadau hyn yn gwella profiadau disgyblion trwy gynnig cyfleoedd da iddynt ddefnyddio’u medrau mewn sefyllfaoedd gwahanol. Mae staff yn rhoi gwybodaeth gyson i rieni, gofalwyr a’r gymuned am fywyd yr ysgol drwy’r wefan a chylchlythyrau rheolaidd.

Mae’r bartneriaeth â rhieni yn gadarn, ac mae gwelliannau diweddar o ran cyfathrebu, gan gynnwys defnyddio’r cyfryngau cymdeithasu, wedi gwella hyn ymhellach. Teimla rhieni fod croeso mawr iddynt yn yr ysgol, a bydd yr athrawon yn cynnig cymorth rheolaidd â ffocws iddynt trwy fentrau’r ysgol ei hun, yn cynnwys PEAS (Parents Engaged Actively in School) a DREAMS (Developing Reading, English and Maths Skills). Mae’r cynlluniau hyn yn llwyddiannus o ran helpu rhieni i gynorthwyo ag addysg eu plant gartref, a chânt effaith gadarnhaol ar gyflawniad, lles a phresenoldeb disgyblion.

Mae cydweithredu agos gydag ysgolion eraill, yn cynnwys rhannu profiadau addysgol a chyfnewid arfer dda. Mae hyn wedi cyfrannu’n dda at wella cyflawniadau disgyblion. Mae strategaethau newydd yr ysgol ar gyfer llythrennedd a mathemateg, er enghraifft, wedi deillio o weithio ochr yn ochr ag ysgolion eraill, ac maent wedi codi safonau yn y meysydd hynny. Mae cysylltiadau cryf gyda grwpiau cyn-ysgol yn sicrhau bod plant yn trosglwyddo’n effeithiol i’r dosbarth meithrin. Mae arweiniad a chymorth priodol gan yr ysgol uwchradd leol yn sicrhau bod disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn trosglwyddo’n hwylus i’r cyfnod addysg nesaf, yn enwedig unrhyw ddisgyblion sy’n agored i niwed.

**Rheoli adnoddau: Da**

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae’r pennaeth a’r corff llywodraethol wedi rheoli’r gyllideb yn ofalus ac wedi datrys y diffygion ariannol blaenorol. Defnyddia’r ysgol ei chyllid grant yn dda i wella adnoddau a deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae gwariant sylweddol diweddar ar galedwedd cyfrifiaduron, er enghraifft, yn helpu codi safonau yn TGCh. Mae gwariant bellach yn cysylltu’n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella’r ysgol.

Mae’r ysgol yn defnyddio amser ac arbenigedd staff addysgu yn dda i gyflwyno pob agwedd ar y cwricwlwm. Mae’r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn briodol ac yn cael eu rheoli’n dda. Defnyddir staff cymorth yn effeithiol a chânt effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion bron ym mhob dosbarth. Mae’r staff yn defnyddio adnoddau yn effeithlon i gefnogi’r dysgu ac i wella cyflawniadau disgyblion.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad a chyfarfodydd gwerthuso ar waith i sicrhau bod yr ysgol yn diwallu anghenion pob aelod o staff. Caiff y staff gyfleoedd priodol ar gyfer datblygiad proffesiynol a hyfforddiant sy’n cysylltu’n effeithiol â blaenoriaethau’r ysgol. Mae ystod eang o rwydweithiau dysgu proffesiynol gydag ysgolion eraill yn cyfoethogi profiadau dysgu staff yn dda ac yn helpu gwella deilliannau ar gyfer disgyblion.

O ystyried darpariaeth dda yr ysgol, y deilliannau a gyflawnir gan y rhan fwyaf o’r disgyblion a’r gwelliannau yn yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae deilliannau asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar gyfer y tri maes asesedig, sef iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, wedi bod fwy neu lai'r un fath â deilliannau ysgolion tebyg eraill dros y ddwy flynedd diwethaf.  Mae'r rhan fwyaf o blant saith oed yn cyflawni'r lefelau disgwyliedig o leiaf.  Mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi'i gosod yn y 25% uchaf o ysgolion â lefelau tebyg ar gyfer prydau ysgol am ddim dros y ddwy flynedd diwethaf.  Fodd bynnag, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni deilliant uwch y Cyfnod Sylfaen (deilliant 6) yn y tri maes dysgu asesedig yn is na chyfran y disgyblion mewn ysgolion tebyg eraill. Nid yw plant sy'n cael prydau ysgol am ddim yn gwneud cystal â disgyblion eraill yn saith oed mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu.

Bu gwelliant sylweddol yn neilliannau asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros y pum mlynedd diwethaf.  Mae cyfran y disgyblion 11 oed sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn y dangosydd pwnc craidd wedi codi o ychydig o dan 30% yn 2010 i dros 83% yn 2013.  Mae'r gwelliant sylweddol hwn yn golygu bod deilliannau disgyblion ar lefel 4 neu uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod gerllaw cyfartaledd y teulu, y cyfartaledd lleol a chenedlaethol, neu ychydig islaw, dros y ddwy flynedd diwethaf.  Mae'r deilliannau hyn yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion â lefelau tebyg o blant yn cael prydau ysgol am ddim.  Fodd bynnag, mae cyfran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) ar ddiwedd cyfnod 2 yn is nag mewn ysgolion tebyg.  Mae bwlch sylweddol wedi bod ym mherfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill dros y pedair blynedd diwethaf.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymateb i'r holiaduron i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Yn gyffredinol)
dynodi'r meincnod - cyfanswm yr holl ymatebion ers Medi 2010 yw hwn.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 95 | 92<br>97%<br>98% | 3<br>3%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 95 | 78<br>82%<br>92% | 17<br>18%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 95 | 93<br>98%<br>97% | 2<br>2%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 95 | 92<br>97%<br>98% | 3<br>3%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 95 | 90<br>95%<br>96% | 5<br>5%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 95 | 91<br>96%<br>96% | 4<br>4%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 95 | 93<br>98%<br>99% | 2<br>2%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 95 | 92<br>97%<br>98% | 3<br>3%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 95 | 86<br>91%<br>91% | 9<br>9%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 95 | 90<br>95%<br>95% | 5<br>5%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 95 | 73<br>77%<br>78% | 22<br>23%<br>22% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 94 | 74<br>79%<br>84% | 20<br>21%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymatebion i’r holiaduron rhieni

dynodi’r meincnod - cyfanswm yr holl ymatebion ers Medi 2010 yw hwn.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 59 | 37 | 21 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 36% | 2% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 61 | 42 | 17 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 69% | 28% | 3% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 61 | 46 | 14 | 0 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 75% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 59 | 29 | 28 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 49% | 47% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 59 | 20 | 35 | 2 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 34% | 59% | 3% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 60 | 33 | 27 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 55% | 45% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 60 | 30 | 30 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 56 | 18 | 23 | 4 | 1 | 10 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 32% | 41% | 7% | 2% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 59 | 29 | 26 | 3 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 49% | 44% | 5% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 60 | 33 | 26 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 55% | 43% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 59 | 36 | 21 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’<br>. | 59 | 27 | 28 | 1 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 46% | 47% | 2% | 0% | | |
| | | 50% | 35% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 59 | 25<br>42%<br>49% | 31<br>53%<br>41% | 3<br>5%<br>8% | 0<br>0%<br>2% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 60 | 33<br>55%<br>62% | 24<br>40%<br>31% | 2<br>3%<br>4% | 0<br>0%<br>2% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 59 | 20<br>34%<br>44% | 33<br>56%<br>39% | 1<br>2%<br>7% | 0<br>0%<br>2% | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 60 | 28<br>47%<br>55% | 30<br>50%<br>39% | 0<br>0%<br>2% | 0<br>0%<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 57 | 15<br>26%<br>42% | 25<br>44%<br>34% | 1<br>2%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 16 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 60 | 35<br>58%<br>53% | 22<br>37%<br>38% | 1<br>2%<br>5% | 0<br>0%<br>1% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| The school is well run. | 58 | 35<br>60%<br>61% | 22<br>38%<br>32% | 1<br>2%<br>3% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mrs Sarah Jane Morgan | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Mrs Elizabeth Ann Dackevych | Arolygydd Tîm |
| Ms Julie Ann Price | Arolygydd Lleyg |
| Lucy Saunders | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr Sion Mason-Evans | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.